# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 15 Hydref 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog roi manylion ei ymweliad ag Awstralia yn ystod toriad Hydref 2003. (WAQ28977)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ymateb i argymhelliad Is-Bwyllgor Cynghori ar Feddygaeth Pwyllgor Meddygol Cymru y bydd angen cynyddu nifer yr ymgynghorwyr sydd ar hyn o bryd ym meysydd diabetes ac endocrinoleg yng Nghymru, sef 32, i gyfanswm o ryw 53 erbyn 2005 er mwyn gweithredu Fframwaith Strategol Genedlaethol Diabetes yn llawn. (WAQ28975)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**Yn dilyn WAQ26957 a WAQ26958, a wnaiff y Gweinidog ddatgelu rhestrau dosbarthu ar gyfer cofnodion Pwyllgor Archwilio Adran y GIG. (WAQ28978)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pryd ddaeth y Gweinidog yn ymwybodol o bryderon ynghylch GIG Cymru yn gwario cyllideb 'Cam-drin Cyffuriau ac Alcohol'. (WAQ28979)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw'r meddyg teulu ar dîm gweithredu prosiect y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol wedi ymddeol neu'n dal i ymarfer. (WAQ28980)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi gwybodaeth am:

i) nifer yr aelodau staff llawnamser a rhan-amser yn ei hadran ym 1999;

ii) nifer yr aelodau staff llawnamser a rhan-amser yn ei hadran ar hyn o bryd. (WAQ29020)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Faint o welyau sydd yng nghartrefi gofal Cymru o'i gymharu â 1999. (WAQ29021)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Faint o gartrefi gofal sydd yng Nghymru o'i gymharu â 1999. (WAQ29022)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Sawl grwp 'Gorchwyl a Gorffen' y mae'r Gweinidog wedi'u sefydlu ers 1999 a beth oedd y gost sy'n gysylltiedig â hynny. (WAQ29023)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar 'Raising Standards and Tackling Workload: A National Agreement'. (WAQ28976) **R**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Leighton Andrews (Y Rhondda);** Pa gyfrifoldebau sydd gan awdurdodau lleol i nodi perchenogaeth tir sy'n aneglur er mwyn sicrhau bod y gwaith sylfaenol o gynnal a chadw a glanhau tir o'r fath yn cael ei wneud. (WAQ28970)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ryddid sydd gan awdurdodau lleol i roi disgownt ar y dreth gyngor yn eu hardaloedd. (WAQ28973)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Leighton Andrews (Y Rhondda);** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl brosiectau Amcan 1 yn etholaeth Y Rhondda, gan roi gwybodaeth am leoliadau, lefelau ariannu a'r prif sefydliadau, ac o dan ba flaenoriaeth a mesur y maent yn dod. (WAQ28971)

**Leighton Andrews (Y Rhondda);** A wnaiff y Gweinidog restru pob Prosiect sy'n gysylltiedig â chyllid Awdurdod Datblygu Cymru yn etholaeth Y Rhondda. (WAQ28972)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa ymateb y mae'r Gweinidog wedi'i roi i'r papur ymgynghori ar y Ddeddfwriaeth arfaethedig ar Gofnodion ac Archifau Cenedlaethol, yn benodol i Gwestiwn 26, adrannau 8.15, 8.16 ac 8.17. (WAQ28974)